

## Hunaniaethau Croestoriadol / Intersectional Identities 'Dulliau o Weithio'

### Cydweithredu fel partneriaeth (mae'r cytundeb partneriaeth llawn i'w gael [yma](#))



Byddwn yn creu gofod diogel lle rydym yn parchu, cefnogi ac ymddiried yn ein gilydd. Byddwn yn cwrdd â phawb a phopeth gyda sylw cadarnhaol diamod.



Byddwn yn cofleidio gwahaniaethau yn yr hyn ydym ni, sut rydym yn gweithio'n dda, a beth rydym yn ei feddwl – mae hyn yn gryfder mawr!



Byddwn yn chwilfrydig, yn gofyn cwestiynau ac yn chwilio am atebion.



Byddwn yn cynnal gofod ar gyfer sialens iach, adeiladol ac agored.



Byddwn yn gwerthfawrogi ac yn blaenoriaethu profiad byw – ein pwynt cychwynol fydd deall beth sy'n bwysig i bobl, a pheidio â chymryd dim yn ganiataol.



Byddwn yn creu gofod lle gallwn ddysgu o ddiwylliannau ac ieithoedd ein gilydd a dod yn bair tairieithog – rhoi cynnig arni yw'r peth pwysicaf, nid ei gael yn berffaith!



Byddwn yn defnyddio'r ddyfais 'Ouch/Oops' i sicrhau bod pob un ohonom yn gallu mynegi ein pryderon yn y foment. Ouch = nodi fy anesmwythder, Oops = yr ymateb yn yr ystafell i gydnabod yr anesmwythder hwn; rydym yn cymryd saib ac yn adolygu. Ceir mwy o gyd-destun ar y ddyfais 'Ouch/Oops' [yma](#).

### Cyfarfodydd partner: rheolau sylfaenol

(Sylwer – mae'r adran hon yn nodi sut rydym yn cynnal cyfarfodydd partner rheolaidd)



Cyn pob cyfarfod, bydd y cadeirydd yn darparu agenda ynghyd â gwybodaeth ysgrifenedig, gydag unrhyw gamau gweithredu wedi eu nodi'n glir – bydd hyn yn caniatáu i'r grŵp a'r cyfieithwyr baratoi o flaen llaw. Bydd y cadeirydd fel arfer yn rhannu'r nodiadau wythnos o flaen llaw, ond os bydd unrhyw gamau gweithredu neu bynciau mwy sylweddol y bydd ar y partneriaid angen rhagor o amser i baratoi ar eu cyfer, rhoddir mwy o rybudd.



Byddwn yn clustnodi 5 munud ar ddechrau pob cyfarfod i ymarfer geiriau/ymadroddion allweddol yn Gymraeg a BSL.



Bydd pobl yn dweud eu henwau cyn cyfathrebu eu pwynt – bydd hyn yn caniatáu gwell hygyrchedd wrth ddilyn y sgwrs.



Byddwn bob amser yn ariannu ac yn trefnu dau gyfieithydd, os na fydd y cyfieithwyr yn nodi fel arall.



Bydd y cadeirydd yn trefnu egwyl o 10 munud bob awr (felly ni fydd mwy na 50 munud o siarad). Bydd hyn yn caniatáu i bawb gael toriad cysur byr, yn cynnwys ein cyfieithwyr.



Byddwn yn codi llaw cyn siarad (corfforol, nid rhithiol) –  
Dwy law = Mae gen i bwynt pwysig sy'n berthnasol i'r hyn sy'n cael ei ddweud  
Un llaw = Hoffwn i wneud pwynt newydd



Byddwn yn defnyddio iaith eglur a hygyrch. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y byddwn fel grŵp yn ein herio'n hunain a'n gilydd i wneud y canlynol – dyw hyn ddim yn golygu y byddwn yn cael popeth yn iawn bob tro, ond yn hytrach ein bod yn nodi ein bwriad a dysgu trwy wneud camgymeriadau!

- Defnyddio termau llawn yn hytrach nag acronymau.
- Osgoi iaith sy'n parhau stereoteipiau niweidiol (e.e. 'syrthio ar glustiau byddar', 'diffyg gweld') neu sy'n cyffredinoli profiadau grŵp o bobl (e.e. mae pobl Dduon yn hoffi . . .)
- Defnyddio termau cynhwysol yn hytrach nag iaith ablaidd (e.e. newid 'Llwybrau *Cerdded* Anturus' i 'Llwybrau Gwyllt').
- Gwerthfawrogi'r cyfieithydd fel pont rhwng BSL / Cymraeg / Saesneg – nid ydynt yn bodoli **ar gyfer** unrhyw gyfranogwr unigol.
- Cydnabod a pharchu'r ffaith y gall iaith/ieithoedd fod yn rhan gymhleth a dwfn o'n hunaniaeth a'n profiadau a bod hynny, yn ei dro, yn effeithio ar ba mor hyderus a chyfforddus rydym yn teimlo mewn gwahanol ofodau. Er enghraifft, mae yna faint fyd-eang sy'n dod gyda bod yn siaradwr Saesneg iaith gyntaf, sawl ymgais hanesyddol i atal rhai ieithoedd (e.e. Cymraeg a BSL), ac i ddileu diwylliant a hunaniaeth, ac mae'r system addysg wedi cael effaith anferth a hir-dymor ar y modd y mae pobl yn ystyried dysgu ieithoedd.
- Peidiwch byth â thybio beth yw dewisiadau pobl o ran ieithoedd – gofynnwch, gwrandewch, ac yna cynigiwch bosibiliadau sy'n parchu'r dewisiadau hyn.



Byddwn yn ymarfer defnyddio ein geirfa Saesneg / Cymraeg / Iaith Arwyddion BSL mewn cyfarfodydd, heb ofni rhoi cynnig arni a gwneud camgymeriadau!



Yn dilyn cyfarfodydd, bydd y cadeirydd yn anfon crynodeb mewn pwyntiau bwled gan nodi'n glir beth sydd angen ei wneud.

## Rhannu gydag eraill



Byddwn, mewn modd rhagweithiol a thryloyw, yn rhannu'r broses rydym yn ei dilyn fel rhagosodiad, yn cynnwys yr hyn rydym wedi ei ddysgu ar hyd y daith yn hytrach na'r deilliannau terfynol yn unig. Mae hyn yn golygu y byddwn, fel cynrychiolwyr, yn bwydo'r hyn a ddysgwyd yn ôl i'n sefydliadau, a byddwn hefyd yn chwilio am gyfleoedd cyson fel partneriaeth i rannu gwybodaeth (e.e. ysgrifennu postiau blog, rhannu'r adroddiad pwynt-canol).